



Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 358 – 12 Gorffennaf 2012

S4C, Caernarfon

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 357

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 357.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

Aelodau newydd – eglurodd y byddai datganiad ar y cyd gan Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC yn cael ei gyhoeddi heddiw am benodiad ECS fel aelod o'r Awdurdod.

Adroddiad blynyddol – Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael sylw yn y cyfryngau, gyda'r negeseuon yn bositif ar y cyfan. Roedd wedi gwneud nifer o gyfweiliadau ar ddiwrnod cyhoeddi'r adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Ail-strwythuro - Eglurodd IHJ fod y broses ail-strwythuro yn parhau. Yn ogystal â'r diswyddiadau gwirfoddol y llynedd bydd dros 10 aelod arall o staff yn gadael S4C.

Arbedion ariannol - Bydd yr arbedion sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad ariannol yn cynnwys Clirlun o ddiwedd y flwyddyn. Cyfeiriodd at drafodaethau sy'n cael eu cynnal gyda swyddogion y BBC yng Nghaerdydd parthed cyfleoedd i rannu adnoddau gweinyddol, technegol a chyd-leoli yn y dyfodol.

Y Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd - Cyfeiriwyd at adroddiad drafft sydd wedi ei baratoi gan swyddogion BBC Cymru ac S4C fel rhan o waith cychwynnol y Bwrdd Partneriaeth ar y cyd. Roedd y gwaith o baratoi dogfen derfynol yn parhau, gan gynnwys llunio cynllun gwaith pum mlynedd ac ystyriaethau cyd-leoli.

Adleoli - Eglurodd fod Steve Cowin yn cydweithio â Roger Crothers o BBC Cymru i edrych ar fanylion ac amserlen y gwaith ar adleoli a darlledu gyda'r bwriad o gyflwyno achos busnes i'r Awdurdod maes o law. Disgwylir iddynt orffen y gwaith erbyn diwedd Medi.

Adeiladau S4C - Mae ymateb da wedi ei dderbyn i'r posibilrwydd o osod swyddfeydd yn adeiladau S4C yn Llanisien. Mae'r gwaith o drafod gyda darpar denantiaid ac o gostio newidiadau i'r adeilad yn erbyn yr incwm posib yn parhau.

Mesuryddion Perfformiad - Yn dilyn trafodaethau am fesuryddion perfformiad ym mis Ebrill mae'r gwaith o fireinio'r mesuryddion a dulliau casglu ymchwil meintiol yn parhau, ac mae Emyr Byron Hughes wedi ei gomisiynu i ymchwilio ymhellach i'r mater ac i lunio argymhellion.

4. Y Bartneriaeth gyda'r BBC

Cyflwynodd PW fersiwn o'r Cytundeb Gweithredu drafft i'r aelodau yn dangos y newidiadau a drafodwyd gyda swyddogion yr Ymddiriedolaeth ers cyfarfod fis Mehefin. Y bwriad yw paratoi dogfen gyhoeddus i gyflwyno'r cytundeb gweithredu, a phwrpas yr ymgynghoriad, i'w cyhoeddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan ddiwedd fis Hydref. Cymeradwywyd y Cytundeb Gweithredu drafft, gan ddirprwyo i EM a PW y gallu i ddelio â'r materion sy'n weddill ar ran yr Awdurdod mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

5. Papur Targedau Effeithlonrwydd ar gyfer 2013- 2017

Cyflwynwyd papur drafft a baratowyd i gyflwyno argymhellion yr Awdurdod i Ymddiriedolaeth y BBC. Seiliwyd y papur ar yr egwyddorion a'r amcangyfrifon ariannol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Mehefin. Yn dilyn trafodaeth cymeradwyodd yr Awdurdod y ddogfen yn unfrydol gan ychwanegu cyfeiriad at wariant cyfalaf.

6. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig gan gyfeirio at nifer o'r rhaglenni a nodir ynddo. Roedd wedi cynnal tri chyfarfod i gwrdd â'r cynhyrchwyr annibynnol er mwyn cychwyn trafod strategaeth y dyfodol. Cafwyd trafodaeth am nifer o themâu a drafodwyd yn y Noson Gwylwyr yn Nhrefdraeth gan gynnwys galw'r gynulleidfa am raglenni ysgafn a chomedi.

7. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig. Cafwyd trafodaeth am sut y mae swyddogion yn penderfynu faint o bwyslais ac adnoddau marchnata sydd eu hangen ar wahanol raglenni. Mae'r adran yn ystyried sut i ddatblygu mesuryddion a fydd yn eu galluogi i asesu gwerth a pherfformiad gweithgareddau hyrwyddo.

8. Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Cyflwynodd RhT adroddiad llafar yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd yn gynharach.

9. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid